
Darganfod
Dadlu
Dewis

—

Discover
Debate
Decide

# Beth yw'r Cyfarfod Llawn?



## Beth yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

**Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cynnwys 60 o Aelodau Cynulliad o bob rhan o Gymru. Maen nhw'n cael eu hethol gan bobl Cymru i'w cynrychioli nhw a'u cymunedau, i wneud cyfreithiau ar gyfer Cymru, ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith yn iawn.**

## Beth yw'r Cyfarfod Llawn?

Bydd holl Aelodau'r Cynulliad yn mynd i'r Cyfarfod Llawn a dyma un o'r prif ddulliau sydd gan yr Aelodau i ddwyn Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad i gyfrif, i ddeddfu ar gyfer Cymru a chynrychioli eu hetholwyr.

## 1. Y Siambr

Cynhelir y Cyfarfod Llawn yn y Siambr, sef siambr drafod y Cynulliad, bob prynhawn dydd Mawrth a dydd Mercher yn ystod y tymor. Fel rheol, bydd y Cyfarfod Llawn yn dechrau am 13.30 a bydd bob tro'n cael ei gynnal yn gyhoeddus.



Y Siambr

Mae oriel arbennig ar gael i'r cyhoedd allu eistedd a gwylio'r trafodion. Mae'r oriel uwchben y Siambr ac mae 120 o seddi ynddi.



Yr Oriel Gynhoeddus

### Y Siambr 'electronig'

Siambr drafod electronig yw'r Siambr. Mae gan yr holl Aelodau gyfrifiaduron personol er mwyn iddynt allu ymchwilio i'r pynciau trafod ac i weithio pan na fyddant yn cael eu galw i siarad. Mae clustffonau ar gael iddynt hefyd i chwyddo'r sain yn y Siambr neu i ddefnyddio'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Mae clociau digidol wedi'u gosod o amgylch y Siambr i amseru'r siaradwyr - os bydd y clociau hyn yn troi'n goch, mae'n golygu bod y siaradwr wedi siarad yn hirach na'r amser a neilltuwyd iddynt.



Cyfrifiaduron yr Aelodau

**Trefniadau eistedd**

Mae cadeirydd y Cyfarfodydd Llawn (sef y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd fel rheol) yn eistedd ym mlaen y Siambr yn wynebu'r holl Aelodau. Mae Gweinidogion y Llywodraeth (y Cabinet) yn eistedd yn y rhes flaen sy'n wynebu'r Cadeirydd. Mae'r Prif Weinidog yn eistedd yng nghanol rhes y Cabinet. Mae'r Aelodau eraill yn eistedd y tu ôl iddynt ac o'u cwmpas, yn eu pleidiau.

**Swyddogion y Siambr**

Mae swyddogion y Cynulliad yn eistedd yn y Siambr hefyd. Mae'r clercod yn eistedd ar y chwith ac ar y dde i'r Llywydd er mwyn cynnig cyngor ynghylch gweithdrefnau a chadw rhestr o'r rheini sydd wedi gofyn i gael siarad am eitemau busnes. Maent hefyd yn gyfrifol am amseru siaradwyr unigol, am weithredu'r system bleidleisio electronig ac am gofnodi canlyniad unrhyw bleidlais.

Mae'r bobl sy'n paratoi Cofnod y Trafodion (cofnod ysgrifenedig swyddogol y Cyfarfod Llawn) yn eistedd y tu ôl i'r Llywydd ac yn cadw nodiadau. Y tu ôl i'r sgriniau gwydr yn y Siambr, bydd y cyfieithwyr ar y pryd, y wasg a'r peirianwyr yn eistedd.

Bydd tywyswyr yn bresennol yn y Siambr hefyd i drosglwyddo negeseuon yn ôl ac ymlaen i Aelodau'r Cynulliad.



Llywydd y Cynulliad yn cadeirio'r Cyfarfod Llawn

**Dilyn trafodion y Siambr**

Bydd trafodion y Siambr yn cael eu darlledu'n fyw ar senedd.tv. Mae archif Cyfarfodydd Llawn blaenorol hefyd ar gael ar senedd.tv.

## 2. Busnes Cyfarfod Llawn Cynnar yn dilyn Etholiad y Cynulliad

Ar ddechrau Cynulliad newydd, rhaid i'r Aelodau gyfarfod yn y Cyfarfod Llawn i gytuno ar nifer o eitemau busnes pwysig. Mae hyn yn cynnwys ethol y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd ac enwebu'r Prif Weinidog.

Y Llywydd blaenorol sy'n pennu dyddiad ac amser y Cyfarfod Llawn cyntaf, gan ymgynghori â'r grwpiau gwleidyddol. Os yw'r Llywydd blaenorol yn amharod i wneud hynny, neu os nad yw'n gallu gwneud hynny(os heb ei ethol neu wedi ymddeol), Clerc y Cynulliad sydd i bennu'r dyddiad a'r amser.

Y Llywydd sydd newydd ei ethol fydd wedyn yn pennu dyddiad ac amser pob Cyfarfod Llawn nes i'r Pwyllgor Busnes gael ei sefydlu ac i'r datganiad a'r cyhoeddiad busnes cyntaf gael ei wneud yn y Cyfarfod Llawn gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth.

Bydd Clerc y Cynulliad yn hysbysu'r holl Aelodau o ddyddiad ac amser pob cyfarfod o leiaf 24 awr o flaen llaw. Caiff agenda pob Cyfarfod Llawn hefyd ei gyhoeddi o leiaf 24 awr o flaen llaw.

**Ethol y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd**
Rhaid cynnal y Cyfarfod Llawn cyntaf o fewn saith diwrnod gwaith i'r etholiad er mwyn ethol Llywydd a Dirprwy Lywydd. Bydd y trafodion yn dechrau drwy ethol Llywydd ac wedyn Dirprwy Lywydd.

**Enwebu'r Prif Weinidog**
Mae gofyn i'r Cynulliad enwebu Prif Weinidog o fewn 28 diwrnod ar ôl etholiad Cynulliad.

**Busnes cynnar dilynol arall**
Rhaid i'r Cynulliad gytuno ar sawl eitem bwysig o fusnes yn fuan ar ôl yr etholiad, gan gynnwys:

- penodi Aelodau i'r Pwyllgor Busnes;
- penodi Comisiynwyr y Cynulliad;
- argymhelliad y Prif Weinidog i'w Mawrhydi ynghylch y person sydd i'w benodi'n Gwnsler Cyffredinol;
- enwau a chylchoedd gwaith y pwyllgorau;
- aelodau a chadeirydd pob pwyllgor.

**Y Cadeirydd**

Y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd a fydd yn cadeirio Cyfarfodydd Llawn. Eu gwaith yw sicrhau bod y trafodion yn effeithlon ac yn deg. Byddant yn gwneud hyn drwy neilltuo amser penodol i'r Aelodau sy'n dymuno cyfrannu at drafodaethau a thrwy alw gwahanol eitemau ar yr Agenda ar adegau perthnasol yn ystod Cyfarfod Llawn. Caiff y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd eu hethol gan y Cynulliad cyfan i fod yn swyddogion diduedd ac i sicrhau bod pob grŵp gwleidyddol yn cael ei drin yn gydradd ym mhob agwedd ar waith y Cynulliad.

**Rheolau Sefydlog**

Pan fydd y Llywydd yn cadeirio'r Cyfarfod Llawn, bydd yn dehongli ac yn rhoi ar waith cyfres o reolau a elwir yn Rheolau Sefydlog. Rheolau gweithdrefnau'r Cynulliad yw'r Rheolau Sefydlog a rhaid i'r Cynulliad eu dilyn. Dim ond os bydd dwy ran o dair o Aelodau'r Cynulliad yn cytuno y bydd modd newid y rheolau hyn. Mae'r Rheolau Sefydlog hefyd yn dweud yn fanwl sut y dylid trefnu'r busnes.

Gofynnir i'r Llywyddion ddehongli'r Rheolau Sefydlog yn y Cyfarfod Llawn, er enghraifft pan fydd Aelod am geisio cyngor ynglŷn â sut yr ymdrinnir â busnes. Gelwir hyn yn godi 'Pwynt o Drefn'. Efallai hefyd y bydd yn rhaid iddynt ofyn i unrhyw Aelod nad yw'n cydymffurfio â rheolau'r ddadl i ymddwyn yn unol â rheolau'r Cynulliad. Gelwir hyn yn galw Aelod i drefn.

**Ymddygiad yn y Cyfarfod Llawn**

Mae’r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol bod Aelodau’n ymddwyn yn briodol yn y Siambr ar bob adeg. Y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd sy'n gyfrifol am gadw trefn.

Rhaid i Aelodau ymddwyn yn y Siambr mewn ffordd sy'n hyrwyddo parch at y Cynulliad ac mewn ffordd sy'n dangos parch a chwrteisi at Aelodau eraill bob amser. Rhaid i'r Aelodau gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau gan y cadeirydd ynglŷn ag ymddygiad yn y Siambr neu ynglŷn â'r drefn yn y Cyfarfod Llawn.

**Siarad yn y Siambr**

Caniateir i bob Aelod siarad yn y Cyfarfod Llawn, a'r Llywydd sy'n penderfynu ar bwy i alw. Caiff Aelodau naill ai wneud cais am gael siarad cyn y Cyfarfod Llawn neu fe allant ddefnyddio system neges frys y Siambr yn ystod y trafodion i ddangos eu bod am gyfrannu.

Caiff yr Aelodau siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg a disgwylir iddynt annerch y Llywydd. Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael i Aelodau, sydd i'w glywed drwy glustffonau.



Y bwth cyfieithu

## 3. Trefnu busnes y Cyfarfod Llawn

Y Pwyllgor Busnes fydd yn cytuno'r pynciau sydd i'w trafod yn y Cyfarfod Llawn a byddant yn cael eu cyhoeddi yn wythnosol yn y Cyfarfod Llawn. Cyhoeddir agenda ar gyfer pob cyfarfod o'r fath.

Cyhoeddir agenda cyn pob Cyfarfod Llawn yn rhestru'r holl eitemau sydd i'w trafod. Mae'r agenda'n rhestru'r holl fusnes yn y drefn y caiff ei ystyried gan yr Aelodau ac mae'n bosibl ei ddiweddaru unrhyw bryd, hyd yn oed yn ystod y Cyfarfod Llawn os bydd angen.

Mae modd darllen yr Agenda ar wefan y Cynulliad : www.cynulliadcymru.org yn yr adran Busnes y Cynulliad.

**Y Pwyllgor Busnes a'r Cyfarfod Llawn**
Y Pwyllgor Busnes sy'n amserlennu'r busnes a drafodir yn y Cyfarfod Llawn. Y Llywydd yw cadeirydd y Pwyllgor Busnes a'i aelodau yw'r Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth a Rheolwr Busnes pob plaid.
Fel rheol, bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn breifat bob bore dydd Mawrth i nodi pa fusnes mae'r Llywodraeth wedi'i amserlennu ar gyfer y tair wythnos ddilynol ac i gytuno'n ffurfiol ar drefniadau ar gyfer gweddill busnes y Cyfarfod Llawn.

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**
Bydd penderfyniadau'r Pwyllgor ynglŷn â busnes y Siambr yn cael eu cyhoeddi yn wythnosol yn y Cyfarfod Llawn gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth. Gelwir hyn yn Ddatganiad a Chyhoeddiad Busnes. Caiff unrhyw aelod wneud cais i ofyn cwestiwn ynglŷn â'r Datganiad a'r Cyhoeddiad Busnes a gofyn am gael ychwanegu eitemau busnes eraill yn y dyfodol.

**Amserlen y Cynulliad**
Rhaid gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch busnes Cyfarfodydd Llawn yn unol ag amserlen y Cynulliad. Dogfen yw hon y bydd y Pwyllgor Busnes yn cytuno arni. Mae'n cynnwys braslun o amserlenni'r Cyfarfodydd Llawn, yr amserau sydd ar gael ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau, yr amserau sydd ar gael ar gyfer cyfarfodydd grwpiau gwleidyddol, dyddiadau'r toriadau, a dyddiadau i Weinidogion, y Cwnsler Cyffredinol a Chomisiynwyr y Cynulliad ateb cwestiynau.

## 4. Mathau o fusnes y Cyfarfod Llawn

Mae'n bosibl ymdrin â gwahanol gategorïau a gwahanol fathau o fusnes yn y Cyfarfod Llawn, er enghraifft, cwestiynau, dadleuon, datganiadau a thrafodion deddfu.
Gellir gosod yr eitemau a ganlyn yn yr agenda:

- cwestiynau i Weinidogion Cymru a Chomisiynwyr y Cynulliad;
- datganiadau neu ddadleuon ar bynciau a gyflwynir gan y Llywodraeth, gwrthbleidiau neu Aelodau unigol;
- ystyried deddfwriaeth Cymreig.

**Cwestiynau**
Gall Gweinidogion neu Gomisiynwyr y Cynulliad ateb cwestiynau a ofynnir iddynt ar lafar neu'n ysgrifenedig. Trefnir rota i Weinidogion pob un o adrannau'r Llywodraeth ymddangos yn y Cyfarfod Llawn i ateb cwestiynau llafar. Bydd y Prif Weinidog yn ateb cwestiynau bob dydd Mawrth.

**Cwestiynau Llafar**
Caiff Aelodau'r Cynulliad ofyn Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog, i Weinidogion Cymru, i'r Cwnsler Cyffredinol ac i Gomisiwn y Cynulliad am unrhyw fater sy'n dod o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Atebir Cwestiynau Llafar yn ystod cyfnod a neilltuir ar gyfer cwestiynau yn y Cyfarfod Llawn.

Bydd y Prif Weinidog yn ateb cwestiynau yn wythnosol, a bydd Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol yn ateb cwestiynau ar batrwm cylch pedair wythnos. Gofynnir cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad unwaith pob pedair wythnos hefyd.

**Hysbysiad o Gwestiynau Llafar**
Bydd y Llywydd yn cynnal balot i benderfynu pa Aelodau a gaiff gyflwyno cwestiynau. Caiff pob Aelod gyflwyno’u henwau i’r balot.

Yna, rhaid i'r Aelod a ddewisir gyflwyno'r Cwestiwn Llafar o leiaf bum diwrnod cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer ateb y cwestiwn hwnnw. Rhaid i'r cwestiynau fod yn berthnasol i gyfrifoldebau'r Gweinidog dan sylw (neu i gyfrifoldebau Comisiwn y Cynulliad pan ofynnir cwestiynau i'r Comisiwn). Defnyddir cyfrifiadur i ddewis trefn ar hap ar gyfer gofyn y cwestiynau yn y Cyfarfod Llawn.

### Cwestiynau Brys

Caiff yr Aelodau hefyd ofyn Cwestiynau Llafar Brys heb orfod gwneud cyhoeddiad. Dim ond os bydd y Llywydd yn meddwl bod y mater yn un o bwys cyhoeddus y caiff Aelod ofyn Cwestiynau Brys.

### Cwestiynau yn y Cyfarfod Llawn - Y drefn

Yn ystod y Cwestiynau Llafar, gelwir yr Aelod perthnasol i ofyn y cwestiwn a gyflwynwyd. Ar ôl i'r Gweinidog ateb (neu’r Comisiynydd os gofynnwyd y cwestiwn i Gomisiwn y Cynulliad), caiff yr Aelod ofyn un cwestiwn arall sy'n berthnasol i'r cwestiwn a gyflwynwyd. Gelwir hwn yn gwestiwn atodol. Caiff y Llywydd benderfynu hefyd a ddylid galw ar Aelodau eraill i ofyn cwestiwn atodol perthnasol neu beidio. Bydd y Gweinidog (neu'r Comisiynydd) yn ateb pob cwestiwn atodol yn ei dro.

Caiff Dirprwy Weinidog ateb cwestiwn ar ran Gweinidog os yw'n gyfrifol am y pwnc dan sylw.

### Cwestiynau i'w hateb yn ysgrifenedig

Os na lwyddir i ateb cwestiwn ar lafar yn ystod trafodion Cyfarfod Llawn, caiff yr Aelod ateb ysgrifenedig ar yr un diwrnod.

Hefyd, caiff Aelodau gyflwyno cwestiynau'n benodol i gael ateb yn ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru neu Gomisiwn y Cynulliad. Nid oes terfyn ar y nifer o gwestiynau ysgrifenedig y caiff Aelod eu cyflwyno. Bydd pob ateb ysgrifenedig yn cael ei gyhoeddi yng Nghofnod y Trafodion.

## Datganiadau

### Datganiadau Llafar

Bydd Gweinidogion y Llywodraeth yn gwneud Datganiadau Llafar am faterion sydd o ddiddordeb ac o bwys i'r Cynulliad. Caiff y Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd, Comisiynwyr y Cynulliad neu Aelodau eraill sydd â chyfrifoldebau penodol (e.e. Aelodau sy'n cynnig deddfwriaeth) wneud Datganiadau Llafar hefyd.

Caiff yr Aelodau ofyn cwestiynau am y rhan fwyaf o'r datganiadau hyn ac fel rheol, neilltuir cyfnod o amser penodol ar gyfer y rhain ar Agenda'r Cyfarfod Llawn.

### Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Math arbennig o ddatganiad yw'r Datganiad a Chyhoeddiad Busnes a wneir yn wythnosol yn y Cyfarfod Llawn gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth. Yn y Datganiad a'r Cyhoeddiad Busnes, rhestrir busnes y Cynulliad yn y dyfodol hyd at dair wythnos o flaen llaw.

### Datganiadau Personol

Caiff y Llywydd ganiatáu i Aelod wneud datganiad personol. Fe all hyn ddigwydd os bydd Aelod yn dymuno gwneud datganiad gerbron y Cyfarfod Llawn e.e. ynglŷn ag ymddiswyddo fel cadeirydd pwyllgor, neu ynglŷn â chroesi'r llawr ( newid plaid). Rhaid i ddatganiadau personol fod yn gryno ac yn ffeithiol ac ni cheir cynnal dadl yn eu cylch.

### Datganiadau Ysgrifenedig

Caiff y Llywodraeth neu'r Comisiwn gyhoeddi datganiadau ysgrifenedig hefyd am unrhyw fater o fewn eu cyfrifoldebau. Fel rheol, bydd y rhain yn ymwneud â materion technegol neu faterion nad oes angen datganiad llafar yn eu cylch yn y Cyfarfod Llawn. Fel rheol, bydd Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad yn anfon unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig yn syth at Aelodau (ACau) drwy e-bost. Bydd pob datganiad ysgrifenedig yn cael ei gyhoeddi yng Nghofnod y Trafodion.

## Dadleuon, cynigion a gwellianau

Gall unrhyw fater sydd o bwys i Gymru a’i phobl gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn. Gall dadleuon gael eu cynnig gan Weinidogion y Llywodraeth, Comisiynwyr y Cynulliad, y gwrthbleidiau neu Aelodau unigol.

### Dadleuon

Dadleuon yw un o'r eitemau o fusnes a fydd yn digwydd amlaf ar agenda'r Cyfarfod Llawn. Cyflwynir sawl math o ddadl yn y Cyfarfod Llawn, gan gynnwys:

- Dadleuon y Llywodraeth;
- Dadleuon yr Wrthblaid;
- Dadleuon pwyllgor ar adroddiad a gyhoeddwyd gan bwyllgor; a
- Dadleuon a gynigir gan Aelodau unigol nad ydynt yn aelodau o'r Llywodraeth.

Y Pwyllgor Busnes a fydd yn pennu faint o amser a neilltuir ar gyfer dadleuon nad ydynt yn ddadleuon y Llywodraeth a'r pwyllgor hwnnw hefyd a fydd yn penderfynu pa mor aml y caiff y dadleuon hyn eu cynnal.

**Cynigion a Gwelliannau**
Caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig neu welliant. Pwrpas gwelliant yw addasu cynnig er mwyn ei wneud yn fwy derbyniol neu gyflwyno cynnig i'r Cynulliad sy'n wahanol i'r cynnig gwreiddiol.

Seilir pob dadl ar gynnig ac ar unrhyw welliannau sy'n gysylltiedig â hi. Ffordd o sicrhau penderfyniad gan y Cynulliad yw cynnig, ac, ar wahân i pan fydd y cyfres o reolau a elwir yn 'Rheolau Sefydlog' yn dweud fel arall, mae'n bosib cynnig gwelliant iddo.

Pwrpas gwelliant yw addasu cynnig er mwyn ei wneud yn fwy derbyniol neu gyflwyno cynnig i'r Cynulliad sy'n wahanol i'r cynnig gwreiddiol. Caiff unrhyw Aelod gyflwyno cynnig neu welliant.

Os na fydd dadl yn un o ddadleuon y Llywodraeth, ni chaiff pwnc y ddadl honno'i gynnwys yn y Datganiad a'r Cyhoeddiad Busnes. Yn hytrach, bydd pynciau'r dadleuon hyn yn cael eu cyhoeddi wythnos o flaen llaw pan gyflwynir y cynnig perthnasol.

**Strwythur a chanlyniad dadl**
Bydd dadl fel rheol yn dechrau gydag Aelod yn cyflwyno pwnc y ddadl honno, a gelwir hyn yn 'gwneud cynnig'. Penderfynir pwy a ddylai gyflwyno'r pwnc ar sail pa fath o ddadl yw hi. Er enghraifft, un o Weinidogion Cymru a fydd yn cyflwyno dadl ar adroddiad gan y Pwyllgor hwnnw.

Os bydd Aelod wedi cyflwyno gwelliant i'r cynnig, fe'i gwahoddir i esbonio pam mae'n gofyn i'r Cynulliad ddiwygio'r cynnig gwreiddiol. Yna, bydd y Llywydd (neu'r Dirprwy Lywydd) yn galw ar Aelodau eraill sydd wedi gofyn am gael siarad am y pwnc.

Mewn dadleuon ynghylch adroddiadau gan bwyllgorau neu ddadleuon gan wrthblaid, bydd y Gweinidog yn ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan yr Aelodau. Yn olaf, bydd yr Aelod a gyflwynodd y ddadl yn cyflwyno sylwadau cloi gerbron y Cynulliad.

Ar ddiwedd dadl, bydd y Llywydd yn gofyn i'r Cynulliad dderbyn y cynnig. Os bydd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu, rhaid cynnal pleidlais ar y cynnig. Mae'n bosibl y gofynnir i'r Aelodau bleidleisio ar unwaith, neu mae'n bosibl y gofynnir iddynt wneud hynny ar adeg arbennig, sef y 'cyfnod pleidleisio'.

**Dadleuon Byr**

Mae dadleuon byr yn wahanol i ddadleuon eraill oherwydd eu bod yn rhoi cyfle i unrhyw Aelod nad yw'n aelod o'r Llywodraeth gynnal dadl gyffredinol am bwnc sydd o ddiddordeb neu am fater sy'n ymwneud â'r etholaeth. Ni fydd gofyn i'r Cynulliad bleidleisio ar ddiwedd y ddadl honno. Detholir Aelodau drwy falot a gynhelir gan y Llywydd a chaniateir iddynt gyflwyno pwnc o'u dewis. Bydd yr Aelod yn agor y ddadl ac yn siarad am y cyfnod a neilltuwyd. Gallent ganiatau i Aelodau eraill i siarad am un munud yn ystod eu hamser siarad. Fel rheol, bydd y Gweinidog neu'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am y pwnc dan sylw'n ymateb i'r ddadl fer.

## 5. Trafodion deddfwriaethol yn y Siambr

Fel rheol, wrth i Bil fynd ar ei hynt drwy'r Cynulliad, bydd yn cael ei hystyried o leiaf dwywaith yn y Cyfarfod Llawn. Bydd rhai mathau o is-ddeddfwriaeth, Biliau'r Cynulliad, a chynigion cydsyniad sy'n ymwneud â Biliau Senedd y Deyrnas Unedig, i gyd yn cael eu hystyried o leiaf unwaith yn y Siambr.

**Biliau**

Cynnig ar gyfer cyfraith newydd yw Bil, neu gynnig i newid cyfraith sy'n bod eisoes. Bydd y cynnig yn cael ei wneud gerbron y Cynulliad er mwyn cynnal dadl yn ei gylch. Fel rheol, ystyrir Bil mewn pwyllgor ac yn y Cyfarfod Llawn. Bydd y rhan fwyaf o Filiau'n mynd drwy'r camau hyn:

**Cyfnod 1**
Ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chytuno arnynt yn y Cyfarfod Llawn a phwyllgorau;

⬇

**Cyfnod 2**
Pwyllgor o Aelodau'r Cynulliad yn ystyried y Bil yn fanwl ynghyd ag unrhyw welliannau a gyflwynwyd;

⬇

**Cyfnod 3**
Y Cyfarfod Llawn yn ystyried y Bil yn fanwl ynghyd ag unrhyw welliannau a ddetholwyd

⬇

**Cyfnod 4**
Derbyn testun terfynol y Bil. Ar ôl cael cydsyniad Brenhinol gan y Frenhines daw y Bil yn Ddeddf Cynulliad.

**Is-ddeddfwriaeth**

Mae Deddfau'r Cynulliad a Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i greu deddfwriaeth fanylach, ac fe elwir y math hwn o ddeddfwriaeth yn ddeddfwriaeth eilaidd neu'n is-ddeddfwriaeth.

**Y weithdrefn gadarnhaol**

Rhaid i gyfran fach o'r is-ddeddfwriaeth bwysicaf gael ei chymeradwyo'n ffurfiol (y weithdrefn gadarnhaol) gan y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn cyn iddi gael ei rhoi ar waith.

**Y weithdrefn negyddol**
Mae'n bosibl diddymu'r rhan fwyaf o is-ddeddfwriaeth (y weithdrefn negyddol). Mae hyn yn golygu y daw'r ddeddfwriaeth i rym oni fydd un o'r Aelodau'n cyflwyno cynnig yn ei gwrthwynebu ("cynnig i ddiddymu") o fewn cyfnod penodol. Os bydd y Cynulliad yn derbyn y cynnig a gyflwynwyd yn erbyn y ddeddfwriaeth, ni fwrir ymlaen â'r ddeddfwriaeth honno.

**Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol**
Pan fydd Senedd y Deyrnas Unedig am ddeddfu ar bwnc sydd eisoes wedi'i ddatganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn ôl y confensiwn, mae gofyn iddi gael Cydsyniad y Cynulliad cyn derbyn y ddeddfwriaeth dan sylw. Rhoddir Cydsyniad o'r fath drwy Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn.

## 6. Pleidleisio

Pan fydd gofyn i'r Cynulliad benderfynu ar unrhyw eitem o fusnes, gwahoddir yr Aelodau i gytuno ar hynny. Os bydd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu, rhaid cynnal pleidlais. Mae'n bosibl y gofynnir i'r Aelodau bleidleisio ar unwaith, neu mae'n bosibl y gofynnir iddynt wneud hynny ar adeg arbennig, sef adeg y 'cyfnod pleidleisio'.


**Y cyfnod pleidleisio**

Mae'r cyfnod pleidleisio yn amser ar agenda'r Cyfarfod Llawn a bennwyd gan y Pwyllgor Busnes, a dyma pryd y cynhelir pob pleidlais a ohiriwyd. Gall nifer y cynigion y pleidleisir arnynt amrywio ond gelwir pob pleidlais yn ei tro gan y Llywydd. Bydd neges yn ymddangos ar sgrin pob Aelod yn gofyn iddynt bleidleisio pan fydd angen gwneud hynny.

**Pleidleisio electronig**

Ar waelod cyfrifiadur pob Aelod, mae lle i gerdyn sy'n dilysu pwy ydynt. Mae tri botwm ar waelod y cyfrifiadur hefyd:

- Gwyrdd: i bleidleisio o blaid
- Gwyn: i atal pleidlais (gelwir hwn yn 'ymatal')
- Coch: i bleidleisio yn erbyn



Botymau pleidleisio yr Aelodau

Bydd yr Aelodau'n dewis pa fotwm i'w bwyso ac fe ddangosir y canlyniadau ar sgriniau plasma'r Siambr ar ddiwedd pob pleidlais. Ar ôl cau'r bleidlais, nid oes modd newid y bleidlais a fwriwyd.

**Ffyrdd eraill o bleidleisio**
Rhaid cynnal ambell bleidlais mewn ffordd arbennig. Er enghraifft, os oes mwy nag un ymgeisydd ar gyfer swydd y Llywydd, rhaid cynnal pleidlais gyfrinachol. Os bydd mwy nag un ymgeisydd ar gyfer swydd y Prif Weinidog, rhaid galw cofrestr yr Aelodau.

Os na fydd y system bleidleisio electronig yn gweithio, caiff y Llywydd ddewis cynnal y bleidlais drwy godi llaw neu drwy alw cofrestr yr Aelodau.

**Canlyniadau'r pleidleisiau**
Cyhoeddir canlyniad pob pleidlais ar ôl y cyfarfod mewn dogfen a elwir yn ‘Bleidleisiau a Thrafodion’ a ‘Chofnod y Trafodion’. Cyhoeddir Crynodeb o'r Pleidleisiau hefyd sy'n cynnwys manylion llawn sut y pleidleisiodd pob Aelod ar bob eitem o fusnes.

## Termau:

**Aelodau'r Cynulliad:** Ceir 60 Aelod Cynulliad etholedig yn y Cynulliad – dewisir 40 ohonynt i gynrychioli etholaethau unigol, ac fe ddewisir 20 i gynrychioli pum rhanbarth Cymru. Dewisir yr Aelodau Cynulliad rhanbarthol drwy system Cynrychiolaeth Gyfrannol, a elwir yn System Aelodau Ychwanegol.

**Bil:** Cyfraith arfaethedig

**Cabinet:** Mae Cabinet Llywodraeth Cymru'n cynnwys Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol i Lywodraeth Cymru. Mae'r Dirprwy Weinidogion yn aelodau o Lywodraeth Cymru ond nid y Cabinet. Ni ellir cael mwy na 12 Gweinidog (ac eithrio'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol)

**Y Cofnod:** Cofnod llawn o drafodion y Cynulliad. Caiff y cofnod ei gyhoeddi'n ddwyieithog ar wefan y Cynulliad (www.cynulliadcymru.org).

**Craffu:** Pan fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n archwilio gwaith Llywodraeth Cymru, mae'r broses yn un o 'graffu'. Golyga hyn ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am ei phenderfyniadau a'i gweithrediadau. Pwyllgorau craffu'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n gwneud hyn ac Aelodau yn y Cyfarfod Llawn. Diben y gwrthbleidiau yw cwestiynu a chraffu ar y Llywodraeth. Mae Aelodau y meinciau cefn hefyd yn craffu.

**Cwnsler Cyffredinol:** Prif Gynghorydd Cyfreithiol Llywodraeth Cymru. Nid yw'r Cwnsler Cyffredinol yn un o Weinidogion Cymru, ond mae'n aelod o Lywodraeth Cymru.

**Cyfreithiau:** Dyma rheolau sy'n cael eu cytuno gan ddeddfwrfa. Gelwir cyfreithiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Deddfau'r Cynulliad.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru:** Mae 60 o Aelodau'r Cynulliad o Gymru gyfan yn ffurfio Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Caiff yr Aelodau eu hethol gan bobl Cymru i'w cynrychioli hwy ac i gynrychioli'u cymunedau, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n cyflawni ei dyletswyddau'n gywir.

**Dadl:** Trafodaeth rhwng Aelodau'r Cynulliad. Cynhelir y dadleuon yn y Siambr, ac fe all fod pleidlais ar ôl i bob dadl orffen.

**Deddfwriaeth:** gair arall am gyfreithiau

**Deddf y Cynulliad:** cyfraith gwlad i Gymru

**Llywodraeth Cymru:** Mae Llywodraeth Cymru'n cynnwys y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol i Lywodraeth Cymru a'r Dirprwy Weinidogion.

**Llywydd:** Caiff y Llywydd ei ethol gan holl Aelodau'r Cynulliad, ac y mae'n gwasanaethu'r Cynulliad yn ddiduedd. Prif swyddogaethau'r Llywydd yw cadeirio'r Cyfarfod Llawn, cadw trefn a sicrhau bod y Rheolau Sefydlog yn cael eu dilyn.

**Rheolau Sefydlog:** Rheolau'r Cynulliad.

**Y Prif Weinidog:** Y Prif Weinidog, a gaiff ei benodi gan y Frenhines, yn dilyn enwebiad y Cynulliad, yw'r Aelod Cynulliad sy'n bennaeth ar Lywodraeth Cymru. Mae'r Prif Weinidog yn penodi Gweinidogion Cymru gyda chytundeb y Frenhines.

**Y Broses Ddeddfwriaethol:** y broses o greu cyfreithiau

**Y Cyfarfod Llawn:** Dyma gyfarfod o'r 60 Aelod Cynulliad yn y Siambr.

**Y Senedd:** yr adeilad ym Mae Caerdydd lle caiff busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei draddodi. Caiff deddfau Cymru eu creu yn y Senedd. Yn 2008, pasiwyd Deddf Gymreig yn y Senedd am y tro cyntaf ers y ddegfed ganrif. Mae'r adeilad yn fan cyhoeddus, er mwyn i bobl Cymru allu gweld Aelodau'r Cynulliad wrth eu gwaith.

**Y Siambr:** Y man trafod lle cynhelir Cyfarfodydd Llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ceir oriel gyhoeddus uwchben y Siambr, lle gall aelodau'r cyhoedd drefnu i wylio'r cyfarfodydd yn fyw.